7. **Next Steps** The BRC will continue to engage with LHB's to move forward with pilot arrangements in order to produce a method of joint working resulting in an overall improvement in service delivery which can be demonstrated. The "Best Practice" resulting from this can then be incorporated in a Model Service Specification available to all LHBs to adopt if desired.

The BRC will also continue to refine data collection methodology to assist both BRC and the NHS (Wales) in understanding the Short Term Loan "business" – e.g. the number of loans issued to reduce DTOC.

The Society will also be reviewing stock holdings with a view to "pooling" stocks so that temporary shortages in one area can be remedied by transfers from another.

8. **Conclusions** In overview the BRC would acknowledge the huge progress made on this subject in the past 24 months especially given a very long problematical history. On a very positive note the programme of cooperation with ALAS especially continues to bear fruit.

J A Collins  
Director Wales

March 2012

## Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

HSC(4)-08-12 papur 8

### Ymchwiliad i atal thrombo-emboledd gwythiennol (VTE) ymhlith cleifion mewn ysbytai yng Nghymru - Y cylch gorchwyl a awgrymir

#### Cyflwynwyd

Yn ei gyfarfod ar 2 Chwefror 2012, cytunodd y Pwyllgor i lansio ymchwiliad a fydd yn canolbwyntio atal thrombo-emboledd gwythiennol (VTE). Mae VTE yn gyflwr difrifol iawn ac mae modd i gleifion ei ddatblygu tra maent yn yr ysbyty neu yn y gymuned. Amcangyfrifir bod dau draean o'r rhai sy'n marw oherwydd thrombosis yn datblygu'r clyflwr tra maent yn yr ysbyty ac ar hyn, felly, y bydd ymchwiliad y Pwyllgor yn canolbwyntio.<sup>1</sup>

Diben y papur hwn yw cyflwyno rhywfaint o wybodaeth gefndir, awgrymu cylch gorchwyl ac awgrymu tystion ar gyfer yr ymchwiliad i atal cleifion mewn ysbytai yng Nghymru rhag datblygu thrombo-emboledd gwythiennol.

Cynhyrchwyd y papur briffio hwn gan y Gwasanaeth Ymchwil ar gyfer y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â Victoria Paris yn y Gwasanaeth Ymchwil

Ffôn est. 8678

E-bost: [victoria.paris@wales.gov.uk](mailto:victoria.paris@wales.gov.uk)

Research  
Service

<sup>1</sup> Lifeblood: The Thrombosis Charity, Public, [Blood clots affect all ages](#) [fel ar 23 Chwefror 2012]  
Ymholiad rhif: 12/0570/ Victoria Paris

## Gwybodaeth gefndir

Cyflwr yn ymwneud â'r gwythiennau yw hwn. Mae **thrombosis** yn digwydd pan fydd **thrombws** (clot gwaed) yn cau gwythien. Pan fydd thrombws yn symud o'r fan lle ffurfiodd, yn teithio drwy'r gwythiennau ac yn mynd yn sownd mewn rhydveli gan atal llif y gwaed, mae'n creu **emboledd**. Gall thrombosis gwythiennol ffurfio yn unrhyw ran o'r system wythiennau ond y math mwyaf cyffredin yw **thrombosis gwythien ddofn (DVT)** (thrombosis sy'n ffurfio yng ngwythiennau dwfn y corff, ac yn y goes fel arfer) pan fydd y thrombus yn symud o'r goes ac yn teithio drwy'r gwythiennau ac yn mynd yn sownd yn yr ysgyfaint gan achosi **emboledd ysgyfeiniol (PE)**. Y term ar gyfer DVT a PE ar y cyd yw **thrombo-emboledd gwythiennol (VTE)**.

### *Pa mor gyffredin yw thrombo-emboledd gwythiennol?*

Mae VTE yn **un brif achosion marwolaeth** a rhagwelir y bydd **achosion o DVT a PE yn cynyddu** wrth i'r boblogaeth heneiddio ac wrth i'r ffactorau risg gynyddu yn eu bywydau (fel llawdriniaeth, teithio ymhell, gordewdra etc). Ar hyn o bryd, amcangyfrifir:

- bod thrombosis gwythiennol yn effeithio ar hyd at un o bob 1,000 yn y DU bob blwyddyn.
- bod oddeutu un o bob 1,000 o ferched beichiog yn datblygu thrombosis, a gall hynny arwain at broblemau iechyd hirdymor cysylltiedig.
- y gall un o bob tri chlaf sy'n cael llawdriniaeth ddatblygu DVT os na chymerir camau ataliol (proffylaxis).
- y gall oddeutu 50 y cant o bobl sy'n cael DVT ddatblygu PE.
- bod rhwng 25,000 a 32,000 o bobl yn marw yn y DU bob blwyddyn oherwydd eu bod yn datblygu PE wedi iddynt gael DVT pan oeddent yn glaf yn yr ysbyty – mae hyn yn fwy na'r cyfanswm sy'n marw o ganser y fron, AIDS a damweiniau traffig gyda'i gilydd.<sup>2</sup>
- o'r cleifion sy'n gwella ar ôl achos cychwynnol o VTE, bydd hyd at 30 y cant ohonynt yn datblygu'r cyflwr eto (DVT a/neu PE) cyn pen 10 mlynedd.
- bod dros 20 y cant o'r cleifion sy'n datblygu VTE hefyd mewn perygl o ddatblygu cymhlethdodau hirdymor ar ffurf syndrom ôl-thrombotig (cyflwr poenus a all amharu gryn dipyn ar y claf, ac sy'n gysylltiedig â briwiau parhaus ar y goes sy'n anodd eu gwella) cyn pen 10 mlynedd.<sup>3</sup>

<sup>2</sup> Pwyllgor Iechyd Tŷ'r Cyffredin, HC99, [\*The Prevention of Venous Thromboembolism in Hospitalised Patients\*](#), Chwefror 2005 [fel ar 22 Chwefror 2012]

<sup>3</sup> Lifeblood: The Thrombosis Charity, Professional, Hospital-based Health Professionals, About VTE, [\*Incidence of VTE\*](#) [fel ar 22 Chwefror 2012]



### Arweiniad

Ym mis Chwefror 2005, cyhoeddodd **Pwyllgor Iechyd Tŷ'r Cyffredin** adroddiad yn dwyn y teitl *The prevention of venous thromboembolism in hospitalised patients*<sup>4</sup>. Roedd yr adroddiad hwn yn dangos y gellid priodoli nifer fawr o farwolaethau i VTE ac nad oedd thromboproffylaxis (camau a gymerir i atal thrombosis) yn cael ei ddefnyddio'r effeithiol yn y DU. Ar ôl cyhoeddi'r adroddiad, comisiynwyd **Y Sefydliad Cenedlaethol dros Iechyd a Rhagoriaeth Glinigol (NICE)** i gynhyrchu canllawiau i bob claf mewn ysbyty, nid dim ond y canllawiau llawdriniaeth roeddent yn gweithio arnynt ar y pryd. Ym mis Ebrill 2007, cyhoeddodd NICE ganllawiau'n dwyn y teitl, *Venous thromboembolism: reducing the risk of venous thromboembolism (deep vein thrombosis and pulmonary embolism) in inpatients undergoing surgery (CG46)* ac ym mis Ionawr 2010, disodlwyd y canllawiau hyn gan *Reducing the risk of venous thromboembolism (deep vein thrombosis and pulmonary embolism) in patients admitted to hospital (CG92)*<sup>5</sup>. Mae canllawiau CG92 yn gwneud argymhellion ar gyfer asesu cleifion i leihau'r perygl iddynt ddatblygu VTE yn yr ysbyty, gan gynnwys **argymhelliad y dylid cynnal asesiad risg o bob claf sy'n cyrraedd yr ysbyty**. Mae hefyd yn cynnig canllawiau ar y proffylaxis mwyaf cost-effeithiol a'r mwyaf effeithiol yn glinigol.

Yn 2010, lanswyd rhaglen gan yr elusen thrombosis, **Lifblood Wales a 1000 o Fywydau a Mwy**, i annog ysbytai ledled Cymru i ddefnyddio rhestr wirio i asesu cleifion ar gyfer clotiau gwaed. Mae'r **Dull Asesu Risg** hwn yn caniatáu i dimau gynnal asesiad trylwyr o'r perygl i glaf ddatblygu clot gwaed drwy ystyried nifer o ffactorau, gan gynnwys hanes o DVT yn y teulu, gordewdra etc, ac ar ôl yr asesiad, gellir penderfynu ar y math gorau o broffylaxis.

---

<sup>4</sup> Pwyllgor Iechyd Tŷ'r Cyffredin, HC99, *[The Prevention of Venous Thromboembolism in Hospitalised Patients](#)*, Chwefror 2005 [fel ar 22 Chwefror 2012]

<sup>5</sup> NICE, CG92, *[Venous thromboembolism: reducing the risk: Reducing the risk of venous thromboembolism \(deep vein thrombosis and pulmonary embolism\) in patients admitted to hospital](#)*, Ionawr 2010 [fel ar 22 Chwefror 2012]





## Y cylch gorchwyl a awgrymir

Diben y sesiwn hon yw:

- Archwilio sut y caiff canllawiau'r Sefydliad Cenedlaethol dros lechyd a Rhagoriaeth Glinigol (NICE) a'r dull asesu risg 1000 o Fwydau a Mwy eu defnyddio ledled Cymru a pha mor ddigonol ac effeithiol ydynt o ran atal thrombo-emboledd gwythiennol (VTE) mewn cleifion sy'n gorfod treulio amser yn yr ysbyty.

Bydd y Pwyllgor hefyd yn ystyried pa aml y defnyddir proffylaccis ffarmacolegol a mecanyddol a pha mor effeithiol ydynt o ran atal VTE ac a oes unrhyw broblemau penodol o ran rhoi mesurau ar waith i atal VTE.

Noder bydd yr ymchwiliad yma yn ffocysu ar atal thrombosis **a gafwyd yn yr ysbyty yn unig.**



## Tystion

Awgrymir y dylai'r Pwyllgor gael tystiolaeth gan y cyrff a ganlyn:

- Cyrff yn y sector cyhoeddus ee Cydffederasiwn GIG Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru;
- Cyrff proffesiynol ee Coleg Nyrsio Brenhinol Cymru, Cymdeithas Orthopaedeg Cymru, Welsh Orthopaedic Association, Coleg Brenhinol y Ffisigwyr, Coleg Brenhinol yr Obstetryddion a'r Gynaecolegwyr;
- Cyrff yn y trydydd sector ee Lifeblood: yr Elusen Thrombosis, 1000 o Fywydau a Mwy, Grŵp Thrombosis Cymru Gyfan.

Mae'n bosibl y bydd yr Aeloda hefyd am ofyn am dystiolaeth ysgrifenedig gan gyrff ac unigolion sydd â diddordeb yn ogystal â galw am dystiolaeth yn gyffredinol.

Ar ddiwedd y cyfarfod, trefnir sesiwn breifat i'r Aelodau ystyried y dystiolaeth a gafwyd a chytuno ar y camau i'w cymryd. Mae'n bosibl y bydd yr Aelodau yn penderfynu cynnal sesiwn arall i glywed tystiolaeth lafar gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cyhoeddus a/neu Brif Swyddog Meddygol Cymru a rhanddeiliaid perthnasol eraill.

## Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

---

Lleoliad: **Ystafell Bwyllgora 1 - Y Senedd**

---

Dyddiad: **Dydd Iau, 23 Chwefror 2012**

---

Amser: **09:15 - 12:00**

---

Cynulliad  
Cenedlaethol  
Cymru

National  
Assembly for  
Wales



Gellir gwyllo'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

[http://www.senedd.tv/archiveplayer.jsf?v=cy\\_200002\\_23\\_02\\_2012&t=0&l=cy](http://www.senedd.tv/archiveplayer.jsf?v=cy_200002_23_02_2012&t=0&l=cy)

---

### Cofnodion Cryno:

---

#### Aelodau'r Cynulliad:

**Mark Drakeford (Cadeirydd)**  
**Mick Antoniw**  
**Rebecca Evans**  
**Vaughan Gething**  
**William Graham**  
**Elin Jones**  
**Darren Millar**  
**Lynne Neagle**  
**Lindsay Whittle**  
**Kirsty Williams**

---

#### Tystion:

**Prof. John Bolton, y Sefydliad Gofal Cyhoeddus, Prifysgol Oxford Brookes**  
**Julie Jones, y Sefydliad Gofal Cymdeithasol er Rhagoriaeth**  
**Ruth Marks, Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru**  
**John Moore, Fy Mywyd mewn Cartref Cymru**  
**Tom Owen, Fy Mywyd mewn Cartref**  
**Sarah Stone, Dirprwy Gomisiynydd Pobl Hŷn Cymru**  
**Alun Thomas, Swyddfa Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru**

---

#### Staff y Pwyllgor:

**Meriel Singleton (Clerc)**  
**Catherine Hunt (Dirprwy Clerc)**  
**Stephen Boyce (Ymchwilydd)**

---

### 1. Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Cafwyd ymddiheuriadau gan Kirsty Williams. Nid oedd dirprwyon.

### 2. Ymchwiliad i ofal preswyl i bobl hŷn - Tystiolaeth gan Gomisiynydd Pobl Hŷn Cymru

2.1 Bu'r tystion yn ymateb i gwestiynau gan aelodau'r Pwyllgor ar ofal preswyl i bobl hŷn.

2.2 Cytunodd y Comisiynydd i rannu ymchwil ar chwythu'r chwiban gyda'r Pwyllgor pan fydd yr ymchwil hwnnw ar gael.

2.3 Cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at Lywodraeth y DU i ofyn am wybodaeth am y cynnydd a wnaed ynghylch hyrwyddo confensiwn gan y Cenhedloedd Unedig ar hawliau pobl hŷn.

### **3. Ymchwiliad i ofal preswyl i bobl hŷn – Tystiolaeth gan raglen Fy Mywyd mewn Cartref**

3.1 Bu'r tystion yn ymateb i gwestiynau gan aelodau'r Pwyllgor ar ofal preswyl i bobl hŷn.

### **4. Ymchwiliad i ofal preswyl i bobl hŷn – Tystiolaeth gan y Sefydliad Gofal Cymdeithasol er Rhagoriaeth a'r Sefydliad Gofal Cyhoeddus**

4.1 Bu'r tystion yn ymateb i gwestiynau gan aelodau'r Pwyllgor ar ofal preswyl i bobl hŷn.

4.2 Cytunodd yr Athro Bolton i ddarparu copi o'r ymchwil a wnaed gan yr Athro Andrew Kerlake (y Sefydliad Gofal Cyhoeddus) ar y cliciedau iechyd a all arwain at sefyllfa lle bydd unigolyn yn cael mynediad at ofal preswyl.

4.3 Gofynnodd y Pwyllgor am gopi o adroddiad a luniwyd gan y Gymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol yn Lloegr ynghylch dadansoddiad cyllidebol o'r cwmni Four Seasons Health Care.

### **5. Papurau i'w nodi**

5.1 Nododd y Pwyllgor y papurau.

### **6. Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(vi) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer eitem 7**

6.1 Cytunodd y Pwyllgor ar gynnig i wahardd aelodau'r cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer eitem 7.

### **7. Goblygiadau iechyd cyhoeddus cyfleusterau toiledau cyhoeddus annigonol – Ystyried crynodeb o'r dystiolaeth**

7.1 Bu'r Pwyllgor yn trafod y dystiolaeth a gafwyd ar oblygiadau iechyd cyhoeddus cyfleusterau toiledau cyhoeddus annigonol, a chytunodd ar grynodeb ohoni.

#### **TRAWSGRIFIAD**

Gweld [trawsgripiad o'r cyfarfod](#).

## Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

### HSC(4)-08-12 paper 9

#### Cyfarwyddeb yr UE ar Hawliau Cleifion i ofal iechyd trawsffiniol

Yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 25 Ionawr gofynnodd Mick Antoniw AC am ragor o wybodaeth am Gyfarwyddeb yr UE ar ddefnyddio hawliau cleifion i ofal iechyd trawsffiniol, a fabwysiadwyd ym mis Ebrill 2011.

Fel y nodwyd yn y papur cefndir ar gyfer cyfarfod y Pwyllgor ar 8 Rhagfyr cynhaliodd Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol y Trydydd Cynulliad [ymchwiliad](#) ar ddechrau 2009, a chlywodd dystiolaeth gan randdeiliaid o Gymru. Nid oes gwaith dilynol wedi'i wneud ar y cynigion hyn gan unrhyw un o bwyllgorau'r Cynulliad.

#### Papur briffio Swyddfa Ewropeaidd y GIG

Paratôdd Swyddfa Ewropeaidd y GIG, sy'n rhan o Gydffederasiwn y GIG, bapur manwl ar y Gyfarwyddeb newydd ym mis Mai 2011<sup>1</sup>, gan nodi'r prif bwyntiau perthnasol i'r GIG yn Lloegr (yn benodol). Rhoddwyd copi o'r papur gwybodaeth hwn i'r Aelodau a chyfeirir hwy ato i gael trosolwg manwl o'r gyfarwyddeb a'r goblygiadau posibl i'r GIG.

Mae gweddill y nodyn hwn yn rhoi trosolwg byr o rai o brif elfennau'r Gyfarwyddeb newydd.

#### Y cefndir

Sefydlwyd hawl cleifion i ofal iechyd mewn Aelod-wladwriaethau eraill o fewn yr Undeb Ewropeaidd, ac i gael ad-daliad gan eu system gofal iechyd eu hunain, drwy nifer o benderfyniadau Llys Cyfiawnder Ewrop.

Bwriad y Gyfarwyddeb newydd yw egluro sut y caiff yr hawl hwn ei weithredu'n ymarferol. Mae'r ddeddfwriaeth hon yn gymwys i rai sy'n dewis cael triniaeth dramor; bydd y cynllun Cerdyn Yswiriant Iechyd Ewropeaidd (EHIC) yn parhau'n berthnasol i bobl sydd angen triniaeth frys pan fyddant yn ymweld â gwlad arall yn yr UE.

#### Prif elfennau

O dan y Gyfarwyddeb:

- mae'r gofal iechyd y gall cleifion ei gael dramor yn cyfateb i'r un gofal ag y byddai ganddynt hawl iddo gan y GIG yng Nghymru;
- caiff cleifion ad-daliad am gost y gofal iechyd hwn hyd at y swm y byddai eu triniaeth wedi ei gostio i'w ddarparu gan y GIG. Nid yw'n ofynnol i'r GIG dalu costau teithio na llety;
- bydd gan y GIG yr opsiwn o gyflwyno system awdurdodi ymlaen llaw ar gyfer cleifion sy'n awyddus i gael triniaeth a gynlluniwyd, dramor, ond dim ond mewn cyfres o amgylchiadau cyfyngedig y caiff wrthod rhoi'r awdurdod.

<sup>1</sup> Cydffederasiwn y GIG (Swyddfa Ewropeaidd), [Patient choice beyond borders – Implications of the EU Directive on cross-border healthcare for NHS commissioners and providers](#), [fel ar 13 Chwefror 2012]

O ran awdurdodi ymlaen llaw, mae Swyddfa Ewropeaidd Cydffederasiwn y GIG wedi tynnu sylw at y wybodaeth a ganlyn:

...It is important to emphasise that authorisation cannot be refused where a patient is experiencing 'undue delay' in receiving treatment under the NHS. While there is no formal definition of 'undue delay', the European Court has stressed that judgments must be based on a clinical assessment of what is a medically acceptable period for the individual clinical circumstances of the patient, and that this assessment needs to be kept under review while the patient is waiting for treatment. Significantly, the European Court has said that offering treatment within a national waiting time target does not necessarily avoid 'undue delay'.

## Trosi

Rhaid rhoi'r Gyfarwydddeb ar waith yn y DU erbyn mis Hydref 2013. Nes y caiff y Gyfarwydddeb ei rhoi ar waith, bydd y rheolau presennol ar ofal iechyd trawsffiniol yn parhau mewn grym:

... The *National Health Service (Reimbursement of the Cost of EEA Treatment) (Wales) Directions 2010*<sup>2</sup> provides for a legal framework relating to prior authorisation for, and reimbursement of, costs of a patient's healthcare in a Member State of the European Economic Area (EEA) other than the United Kingdom. These regulations, which apply in England and Wales, follow on from guidance<sup>3</sup> issued by the Welsh Government to the NHS in Wales in 2007 (in tandem with Department of Health guidance to the NHS in England) to assist NHS bodies in handling requests for patient mobility.

## Camau yng Nghymru

Hyd yma, nid yw Llywodraeth Cymru wedi gwneud unrhyw ddatganiadau ar y Gyfarwydddeb newydd na sut y caiff ei throsi yng Nghymru.

---

<sup>2</sup> *National Health Service (Reimbursement of the Cost of EEA Treatment) (Wales) Directions 2010*, 2010/915 [fel ar 13 Chwefror 2012]

<sup>3</sup> Cylchlythyr Iechyd Cymru, WHC (2007) 044, *Advice to Local Healthcare Commissioners on Handling Requests for Hospital Care in other European Countries following the ECJ's Judgment in the Watts case*, 24 Mai 2007 [fel ar 13 Chwefror 2012]





## Diweddariad polisi'r UE (EU2012.03):

## Moderneiddio Cyfarwyddeb Cymwysterau Proffesiynol yr UE

Diweddarwyd: 17 Chwefror 2012

### Crynodeb o brif bwyntiau'r cynigion Cyflwyniad

Ar 19 Rhagfyr 2011, cyhoeddodd y Comisiwn Ewropeaidd ('y Comisiwn') gynigion i ddiwygio Cyfarwyddeb yr UE ar gymwysterau proffesiynol 2005.<sup>1</sup>

Prif nod y diwygiadau yw helpu i ysgogi gweithwyr proffesiynol i symud o'r naill aelod-wladwriaeth i'r llall drwy ddileu'r rhwystrau sy'n eu hatal rhag gwneud hynny. Mae'r cynigion yn rhan o'r 12 menter a nodwyd yn **Neddf y Farchnad Sengl** a gyhoeddwyd fis Ebrill 2011. Nod y Ddeddf hon yw cryfhau marchnad sengl yr UE.

Mae'r Gyfarwyddeb yn gymwys i'r 'proffesiynau a reoleiddir' yn yr UE, ac mae tua 800 ohonynt. Y 'proffesiynau a reoleiddir' yw'r rheini sy'n gofyn am gymwysterau/hyfforddiant proffesiynol 'cydnabyddedig'.

Nid yw'r Comisiwn yn cynnig Cyfarwyddeb newydd ond, yn hytrach, mae'n ceisio diwygio Cyfarwyddeb 2005.<sup>2</sup>

### Crynodeb o'r prif elfennau

Dyma'r prif newidiadau sy'n cael eu cynnig:

<sup>1</sup> COM(2011)883 Gweler **gwefan Cyfarwyddiaeth Gyffredinol y Farchnad Fewnol**

<sup>2</sup> Cyfarwyddeb (2005/36/EC) Gweler **gwefan Cyfarwyddiaeth Gyffredinol y Farchnad Fewnol**

- **Creu Cerdyn Proffesiynol Ewrop:** er mwyn medru cydnabod cymwysterau'n haws ac yn gynt a'i gwneud yn haws i weithwyr proffesiynol symud i weithio dros dro mewn aelod-wladwriaeth arall. Cerdyn ar ffurf tystysgrif electronig fyddai hwn, a byddai'n caniatáu i'r gweithiwr proffesiynol gynnig gwasanaethau neu sefydlu mewn aelod-wladwriaeth arall. Lansiodd y Comisiwn grŵp arbenigol i ymchwilio i'r syniad hwn ym mis Ionawr 2011 ac, o ganlyniad, cyhoeddwyd Papur Gwyn ym mis Mehefin 2011.<sup>3</sup> Byddai Cerdyn Proffesiynol Ewrop yn cael ei roi ar waith drwy'r **System Gwybodaeth y Farchnad Fewnol (IMI)**, sy'n bod eisoes i ganiatáu i'r aelod-wladwriaethau rannu gwybodaeth.
- **Rheolau'n ymwneud â sgiilau ieithyddol:** os yw gweithwyr proffesiynol am symud i weithio mewn aelod-wladwriaeth arall, mae'r cynnig yn egluro na ddylid cadarnhau eu gallu ieithyddol nes bod eu cymhwyster wedi'i gydnabod. Yn achos gweithwyr proffesiynol sy'n ymwneud â diogelwch cleifion, gall awdurdodau sicrhau bod ganddynt y gallu ieithyddol priodol os yw'r system gofal iechyd genedlaethol, neu gyrff cenedlaethol sy'n cynrychioli cleifion, yn gofyn iddynt wneud hynny, yn enwedig yn achos gweithwyr iechyd proffesiynol hunangyflogedig.
- **System rybuddio ar gyfer gweithwyr iechyd proffesiynol sy'n cael cydnabyddiaeth awtomatig:** mae'n bosibl y bydd angen i awdurdodau cymwys mewn aelod-wladwriaeth hysbysu (drwy gyfrwng

<sup>3</sup> Gweler **gwefan Cyfarwyddiaeth Gyffredinol y Farchnad Fewnol DG**



yr IMI a nodwyd uchod), awdurdodau cymwys yr holl aelod-wladwriaethau eraill am weithwyr ieched sydd wedi'u gwahardd rhag arfer eu gwaith proffesiynol. Dim ond i'r gweithwyr ieched proffesiynol hynny sy'n cael cydnabyddiaeth awtomatig (meddygon, nyrsys, bydwagedd, deintyddion, fferyllwyr, milfeddygon) y mae hyn yn berthnasol. Yn achos y proffesiynau eraill, defnyddir y system rybuddio sydd wedi'i chynnwys eisoes yn y Gyfarwyddeb Gwasanaethau.

- **Moderneiddio gofynion hyfforddiant sylfaenol sydd wedi'u cysoni:** byddai'r cynnig yn newid y diffiniad o ofynion hyfforddiant sylfaenol gweithwyr proffesiynol sy'n cael eu cydnabod yn awtomatig, yn enwedig meddygon, nyrsys, bydwagedd a phenseiri:
  - **Meddygon:** addysg feddygol yn seiliedig ar 5,500 awr o hyfforddiant, o fewn cyfnod o bum mlynedd. Byddai'n bosibl i aelod-wladwriaethau eithrio meddygon arbenigol yn rhannol pe baent yn barod i ddilyn ail gwrs hyfforddi arbenigol.
  - **Nyrsys a bydwagedd:** codi'r lefel mynediad ar gyfer hyfforddiant nyrsio / bydwreigiaeth o 10 i 12 mlynedd o addysg gyffredinol. Ni fyddai'r cynnig yn ei gwneud yn ofynnol i aelod-wladwriaethau gyflwyno cyrsiau prifysgol i nyrsys a bydwagedd. Byddai nyrsys a bydwagedd sydd wedi dechrau hyfforddi cyn i'r Gyfarwyddeb newydd ddod i rym yn dal yn cael cydnabyddiaeth awtomatig.
  - **Penseiri:** 6 mlynedd o hyfforddiant, gan gynnwys naill ai 1 neu 2 flynedd o brofiad ymarferol dan oruchwyliaeth yn

ogystal ag addysg brifysgol.

- **Cydymffurfio â gofynion hyfforddiant sylfaenol :** byddai'r aelod-wladwriaethau yn dynodi corff cenedlaethol i fod yn gyfrifol am sicrhau bod pob diploma newydd yn cydymffurfio â'r gofynion hyfforddiant sylfaenol a ddiffinnir yn y Gyfarwyddeb (ar gyfer y **saith maes proffesiynol:** meddygon, nyrsys, bydwagedd, deintyddion, fferyllwyr, milfeddygon a phenseiri).
- **Cydwertuso'r proffesiynau sydd wedi'u rheoleiddio :** byddai'r aelod-wladwriaethau yn darparu rhestr o'r proffesiynau sydd wedi'u rheoleiddio ac yn cyfiawnhau'r angen i'w rheoleiddio. Byddai'r Comisiwn wedyn yn hwyluso proses o gyd-wertuso'r proffesiynau dan sylw.

### Amseru a'r broses ddeddfwriaethol

Ym mis Hydref 2011, galwodd y Cyngor Ewropeaidd am gytundeb gwleidyddol erbyn diwedd 2012 ar y 12 menter a nodwyd yn Neddf y Farchnad Sengl, gan gynnwys y cynigion i ddiwygio Cyfarwyddeb Cymwysterau Proffesiynol 2005. Cadarnhaodd Senedd Ewrop y safbwynt hwn yn ei adroddiad ym mis Tachwedd 2011.

### Cefndir a chyd-destun y cynigion

Mae'r cynigion yn dilyn adolygiad o Gyfarwyddeb 2005 (2005/36/EC) i gydnabod cymwysterau proffesiynol. Cynhaliodd y Comisiwn ymgynghoriad cyhoeddus ynghylch y Gyfarwyddeb bresennol ar ddechrau 2010, ac ymgynghoriad arall ynghylch **Papur Gwyrdd** <[http://ec.europa.eu/internal\\_market/consultations/2011/professional\\_qualifications\\_directive\\_en.htm](http://ec.europa.eu/internal_market/consultations/2011/professional_qualifications_directive_en.htm)> a gyhoeddwyd ym mis

Mehefin 2011. Daeth yr ymgynghoriad hwn i ben fis Medi.<sup>4</sup>

Fel y nodwyd eisoes, mae'r Gyfarwyddeb yn cael ei diwygio fel rhan o'r 12 menter a nodwyd yn **Neddf y Farchnad Sengl** a gyhoeddwyd yn 2011. Ail-lansio'r Farchnad Sengl yw un o flaenoriaethau craidd yr UE, ac mae Llywodraeth y DU yn gefnogol iawn i hynny.

## Perthnasedd i Gymru

Mae caniatáu i weithwyr proffesiynol, yn enwedig gweithwyr iechyd proffesiynol, symud yn rhwydd o'r naill aelod-wladwriaeth i'r llall, yn faes sydd o ddiddordeb i Gymru.

Ar hyn bryd, mae gan Lywodraeth y DU bwerau a gadwyd yn ôl yng nghyswllt rhai agweddau ar y proffesiwn meddygol a'r system gofal iechyd ee mae'r Cyngor Meddygol Cyffredinol yn rheoleiddio meddygon, mae'r Cyngor Fferylliaeth Cyffredinol yn rheoleiddio fferyllwyr a thechnegwyr fferyllol, mae Cyngor y Bydwagedd yn rheoleiddio nyrsys a bydwagedd ac mae'r polisi mewnfudo'n effeithio ar feddygon a myfyrwyr meddygol o dramor. Llywodraeth Cymru, fodd bynnag, sy'n gyfrifol am ddarparu gwasanaethau ac, felly, mae gwahaniaeth yn aml rhwng cyrsiau hyfforddi, dulliau recriwtio, cytundebau, cymhelliannau ac amgylcheddau gwaith yng Nghymru ac yn y DU.

Mae **Asiantaeth Genedlaethol Arwain ac Arloesi mewn Gofal Iechyd** (NLIAH) yn cynorthwyo Llywodraeth Cymru i gynllunio ac i weithredu gofynion y gweithlu, o ran niferoedd a sgiliau, ac mae'r corff yn rhan hanfodol o'r gwaith o gyflawni'r amcanion strategol allweddol a nodwyd yn agendâu

<sup>4</sup> Cafodd y Comisiwn Ewropeaidd dros 400 o ymatebion, gan gynnwys nifer gan y DU. Gweler **gwefan y Comisiwn Ewropeaidd**.

*Cynllun Oes, Cynllun Cyflenwi, Cynllun Gwaith a Law yn Llaw at Iechyd.*

Ar 1 Chwefror 2012, lansiodd Llywodraeth Cymru ymgyrch i annog rhagor o feddygon i wneud cais i weithio yng Nghymru.<sup>5</sup> Mae'n anodd denu meddygon i rai rhannau o Gymru a'r DU, yn enwedig mewn rhai meysydd arbenigol fel meddygaeth frys, seiciatreg a phaediatreg. Mae'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol hefyd wedi gofyn i swyddogion Llywodraeth Cymru ystyried recriwtio rhagor o feddygol o'r UE i fynd i'r afael â phroblemau recriwtio.<sup>6</sup>

Mae'r **Cyngor Meddygol Cyffredinol**, sy'n gyfrifol am gofrestru meddygon i weithio yn y DU (gan gynnwys Cymru), wedi mynegi pryder am rai meddygon o'r UE nad oes ganddynt ddigon o allu ieithyddol i weithio yn y DU, ac am rai nad oes ganddynt y cymhwysedd clinigol i wneud hynny. Mae'r diwygiadau i'r Gyfarwyddeb yn ceisio sicrhau bod y mesurau diogelwch sydd ar gael yn y maes hwn yn gliriach.

Mae **Swyddfa Ewropeaidd Cydffederasiwn y GIG**<sup>7</sup> yn croesawu nifer o elfennau yng nghynigion y Comisiwn. Mae wedi mynegi pryder, fodd bynnag, ynghylch Cerdyn Proffesiynol Ewrop, ac mae'n galw am gryfhau'r rheolau'n ymwneud â chadarnhau gallu ieithyddol, ac i'r cyrff rheoleiddio fedru rhybuddio'i gilydd am yr holl sancsiynau disgyblu, gan gynnwys sancsiynau llai difrifol na gwahardd gweithwyr dros dro, neu'n barhaol, o'r gofrestr broffesiynol mewn unrhyw aelod-wladwriaeth.

<sup>5</sup> Llywodraeth Cymru, Datganiad i'r Wasg, **Ymgyrch newydd i ddenu rhagor o feddygon i Gymru**, 1 Chwefror 2012 [fel ar 10 Chwefror 2012]

<sup>6</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, **Cofnod y Trafodion [para 68]**, 25 Ionawr 2012 [fel ar 20 Chwefror 2012]

<sup>7</sup> Gweler **Papur briffio Ewropeaidd 8 Chwefror 2012: Swyddfa Ewropeaidd y GIG**

## Barn Llywodraeth y DU

*Cyhoeddodd Llywodraeth y DU  
Femorandwm Esboniadol<sup>8</sup> ar 12 Ionawr  
2012 yn nodi'i hymateb i gynigion y  
Comisiwn.*

Mae Memorandwm Esboniadol Llywodraeth y DU, yn gyffredinol, yn croesawu'r newidiadau a gynigir i'r Gyfarwyddeb bresennol. Mae'n nodi bod y diwygiadau arfaethedig yn cynnwys nifer o awgrymiadau gan Lywodraeth y DU a chyrrff eraill o'r DU sydd â diddordeb. Mae'n arbennig o falch bod y diwygiadau arfaethedig yn cynnwys gofyn i'r aelod-wladwriaethau sicrhau bod y modd y maent yn rheoleiddio proffesiynau perthnasol yn gymesur ac yn angenrheidiol, a'u bod yn rhoi gwybod i'r Comisiwn amdanynt.

Mae Llywodraeth y DU hefyd yn croesawu nifer o agweddau eraill ar y Gyfarwyddeb, ond mae'n credu bod angen iddynt fod yn fwy eglur. Mae'r rhain yn cynnwys:

- **Profion ieithyddol:** er bod y cynigion yn ymdrin i raddau â phryderon rheoleiddwyr iechyd y DU, mae Llywodraeth y DU yn teimlo bod angen egluro'r testun yn y Gyfarwyddeb ymhellach i amlygu holl oblygiadau'r newidiadau arfaethedig.
- **Sicrhau mai'r awdurdod cymwys yn yr aelod-wladwriaeth y mae'r gweithiwr proffesiynol am symud iddi sy'n gyfrifol am gymeradwyo ceisiadau am Gerdyn Proffesiynol Ewrop**, a sicrhau bod yr amserlen ar gyfer cymeradwyo ceisiadau'n fwy synhwyrol.
- Mae llawer o'r cynigion yn caniatáu i'r Comisiwn ddeddfu ar y fframweithiau ar gyfer proffesiynau unigol, neu greu canllawiau penodol ar gyfer meysydd fel

<sup>8</sup> Ar gael ar wefan Swyddfa Cabinet y DU

diogelu data. Mae Llywodraeth y DU yn ystyried sicrhau bod y gweithdrefnau sy'n gysylltiedig â'r mecanweithiau hyn yn cynnwys rhwymedigaethau amlycach ar y Comisiwn i ymgynghori ag aelod-wladwriaethau a rhanddeiliaid lle bo hynny'n briodol.

## Barn Llywodraeth Cymru

Gan fod rhai o'r materion sydd wedi'u cynnwys yn y Gyfarwyddeb hon yn faterion sydd wedi'u datganoli, ymgynghorwyd â Llywodraeth Cymru, a'r gweinyddiaethau datganoledig eraill, wrth baratoi Memorandwm Esboniadol Llywodraeth y DU. Ar hyn o bryd, fodd bynnag, nid oes unrhyw fanylion am farn Llywodraeth Cymru am y cynigion. Ni chyflwynodd Llywodraeth Cymru ymateb i'r ymgynghoriad a gynhaliwyd yn ystod haf 2011.

## Hynt y cynigion yn sefydliadau'r UE

*Caiff yr adran hon ei diweddarw wrth i'r trafodaethau ym Mrwsel fynd rhagddynt ac wrth i safbwyntiau swyddogol sefydliadau'r UE ddod yn gliriach.*

### Monitro'r cynigion

Caiff y cynigion eu mabwysiadu drwy'r 'broses ddeddfu gyffredin' (cydbenderfyniad), sy'n golygu bod yn rhaid i Senedd Ewrop a Chyngor y Gweinidogion (hy llywodraethau'r aelod-wladwriaethau) gytuno ar y testun terfynol, gyda'r Comisiwn yn gweithredu fel brocer.

Mae modd dilyn hynt y cynigion drwy broses benderfynu'r UE ar ddwy wefan:

- **Arsyllfa Ddeddfwriaethol Senedd Ewrop**
- **Gwefan Pre-Lex y Comisiwn Ewropeaidd**

Sylwch: bydd y tudalennau hyn yn cynnwys

gwybodaeth am y drafodaeth gyffredinol yn yr UE, ond ni fydd yn cynnwys gwybodaeth benodol am safbwyntiau/buddiannau'r DU neu Gymru. Byddwn yn ymdrin â hynny yn yr adrannau isod.

### **Senedd Ewrop:**

Y prif bwyllgor fydd y **Pwyllgor Diwydiant, Ymchwil ac Ynni** sy'n cael ei gadeirio gan **ASE yr Almaen Herbert Reul** (Plaid Pobl Ewrop EPP, plaid adain dde gymedrol, a'r blaid fwyaf yn Senedd Ewrop). Nid oes yr un ASE o Gymru ar y Pwyllgor hwn. Mae pedwar ASE o'r DU ar y Pwyllgor, fodd bynnag: tri aelod ac un dirprwy.

Y rapporteur yw: **ASE Ffrainc Bernadette Vergnaud** (Grŵp y Sosialwyr a'r Democratiaid).

### **Cyngor y Gweinidogion:**

Yng Nghyngor y Gweinidogion, y **Cyngor Cystadleurwydd**, fydd yn arwain, a bydd gweithgorau, a fydd yn cynnwys swyddogion o Lywodraeth y DU, yn trafod yr agweddau technegol ar y newidiadau arfaethedig. Mae dau gyfarfod o'r Cyngor Cystadleurwydd wedi'u trefnu (20-21 Chwefror a 30-31 Mai) yn ystod **Llywyddiaeth Denmarc**, er nad yw'n ymddangos bod y diwygiadau i'r Gyfarwyddeb wedi'u cynnwys ar agenda'r naill gyfarfod na'r llall. Bydd Gweinidogion y DU (a'u swyddogion) yn cynrychioli Cymru yn ystod y trafodaethau hyn (yng nghyfarfodydd ffurfiol y Cyngor a'r gweithgorau)

## **Rhagor o wybodaeth**

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â  
Gregg Jones (**[Gregg.Jones@wales.gov.uk](mailto:Gregg.Jones@wales.gov.uk)**)  
Swyddfa'r UE, ffôn 0032 2 226 6692, neu  
0044 781 616 4455

**At:** Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

**Gan:** Y Swyddfa Ddeddfwriaeth

**Dyddiad:** 2 Mawrth 2012

**Y BIL DRAFFT YNGHYLCH SGORIO HYLENDID BWYD (CYMRU): CYFLWYNIAD  
BRIFFIO TECHNEGOL GAN SWYDDOGION Y LLYWODRAETH – GWYBODAETH  
YCHWANEGOL**

**Diben**

1. Darparu gwybodaeth ychwanegol i'r Pwyllgor mewn perthynas â'r Bil drafft, y gofynnwyd amdani yn ystod y sesiwn briffio technegol gyda swyddogion y Llywodraeth.

**Cefndir**

2. Yn ystod y sesiwn briffio technegol ar 2 Chwefror 2012, gofynnodd y Pwyllgor am y wybodaeth ychwanegol a ganlyn —
  - ffigurau ynghylch nifer yr ymweliadau â thudalennau gwefan yr Asiantaeth Safonau Bwyd sy'n ymwneud â sgorio hylendid bwyd,
  - dadansoddiad o nifer yr ysbytai yng Nghymru sydd ym mhob categori sgorio hylendid bwyd,
  - nifer yr ysbytai yng Nghymru sy'n arddangos eu sgôr hylendid bwyd ar hyn o bryd, a
  - ffigurau cywir ynghylch nifer y busnesau bwyd yng Nghymru sydd wedi cael eu sgorio ers mis Hydref 2010, fesul awdurdod lleol, a dadansoddiad o nifer y busnesau sydd ym mhob categori sgorio.
3. Mae llythyr gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol sy'n darparu'r wybodaeth ychwanegol wedi'i gynnwys fel Atodiad A i'r papur hwn.
4. Mae'r Gweinidog hefyd wedi darparu copi i'r Pwyllgor o lythyr at Brif Weithredwyr a Chadeiryddion pob Bwrdd Iechyd ac Ymddiriedolaeth y GIG yng Nghymru ynghylch arddangos eu sgôr hylendid bwyd. Mae'r llythyr hwn wedi'i gynnwys fel Atodiad B i'r papur hwn.

**Camau i'w cymryd**

5. Gwahoddir yr Aelodau i nodi'r ohebiaeth sydd wedi'i chynnwys yn Atodiadau A a B.



Lesley Griffiths AC / AM  
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol  
Minister for Health and Social Services



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Ein cyf/Our ref LF/LG/0047/12

Mark Drakeford AM  
Chair - Health and Social Care Committee  
National Assembly for Wales  
Cardiff Bay  
Cardiff  
CF99 1NA

2<sup>nd</sup>

February 2012

Dear Mark,

**Food Hygiene Rating (Wales) Bill - Technical Briefing to the Health and Social Care Committee**

During the Health and Social Care Committee meeting of 2 February, a technical briefing on the Food Hygiene Rating (Wales) Bill was provided by my officials. I hope the Committee found the technical briefing useful. During the briefing, Members of the Committee requested some additional information not available at the time. The Committee requested:

1. figures for the number of 'hits' on the FSA's food hygiene ratings webpages;
2. a breakdown of the number of hospitals in Wales in each food hygiene rating category;
3. the number of hospitals in Wales currently displaying their food hygiene rating; and
4. an accurate figure of the number of food businesses in Wales that have been rated since October 2010, broken down to Local Authority level, and a breakdown of the number of businesses in each rating.

I am now in a position to provide the information requested by the Committee. With regard to point 1, figures for the number of 'hits' on the FSA's food hygiene ratings webpage, the FSA have provided the following information. In the four week period between 9 January and the 5 February 2012, the UK Food Hygiene Rating Scheme website received a total of 51,388 views. Whilst it is difficult to be precise, the FSA expect around 2000 of these 'hits' were by people in Wales. There was a peak in the number of views of the webpage in the week commencing 30 January 2012, particularly in Wales where almost three times as many people accessed the site than in any of the previous three weeks. This is thought, in part, to be attributed to the ITV Wales programme *Wales this Week* on the Food Hygiene Rating Scheme which was broadcast on Tuesday 31 January 2012.

Information on the number of hospitals in each food hygiene rating category (point 2) and the number of food businesses rated by each Local Authority (point 4), is provided in Annex 1 of this letter. The data for point 3, the number of hospitals in Wales currently displaying their food hygiene rating, is not readily available. However, I have written to all Health Boards and NHS Trust Chief Executives and Chairs in Wales to ensure all hospitals and healthcare facilities in their area display their food hygiene rating. A copy of my letter is attached for the Committee's information.

Kind Regards  
Lesley

**Lesley Griffiths AC / AM**

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol  
Minister for Health and Social Services

**The number of hospitals in Wales in each food hygiene rating category**  
(Not all NHS hospitals in Wales may have received a rating)

Local Authority	Rating						Total number of hospitals
	Very Good 5	Good 4	Generally Satisfactory 3	Improvement Necessary 2	Major Improvement Necessary 1	Urgent Improvement Necessary 0	
Anglesey	2	0	0	0	0	0	2
Blaenau Gwent	1	0	0	0	0	0	1
Bridgend	0	0	2	0	0	0	2
Caerphilly	0	0	1	0	0	0	1
Cardiff	1	0	1	0	0	0	2
Carmarthenshire	2	0	0	0	0	0	2
Ceredigion	0	0	0	0	0	0	0
Conwy	1	1	1	0	0	0	3
Denbighshire	1	0	0	0	0	0	1
Flintshire	0	4	0	0	0	0	4
Gwynedd	1	1	0	0	0	0	2
Merthyr Tydfil	1	0	0	0	0	0	1
Monmouthshire	2	1	0	0	0	0	3
Neath & Port Talbot	1	1	0	0	0	0	2
Newport	1	2	1	0	0	0	4
Pembrokeshire	3	1	0	0	0	0	4
Powys	1	2	0	0	0	0	3
Rhondda Cynon Taf	1	2	0	0	0	0	3
Swansea	2	2	0	0	0	0	4
Torfaen	2	0	0	0	0	0	2
Vale of Glamorgan	0	1	1	0	0	0	2
Wrexham	3	0	0	0	0	0	3
<b>Total</b>	<b>26</b>	<b>18</b>	<b>7</b>	<b>0</b>	<b>0</b>	<b>0</b>	<b>51</b>
<b>Total as percentage</b>	<b>50.98%</b>	<b>35.29%</b>	<b>13.73%</b>	<b>0.00%</b>	<b>0.00%</b>	<b>0.00%</b>	



## Breakdown of ratings given to food businesses in Wales by Local Authority

Local Authority	Rating						Total number of food businesses
	Very Good 5	Good 4	Generally Satisfactory 3	Improvement Necessary 2	Major Improvement Necessary 1	Urgent Improvement Necessary 0	
Anglesey	162	119	73	12	16	0	382
Blaenau Gwent	148	96	32	16	26	1	319
Bridgend	153	172	155	76	136	29	721
Caerphilly	201	236	205	50	84	1	777
Cardiff Council	582	524	335	167	280	21	1909
Carmarthenshire	266	226	152	45	89	6	784
Ceredigion	167	70	51	18	60	4	370
Conwy	260	221	161	32	64	2	740
Denbighshire	262	132	59	26	32	8	519
Flintshire	169	130	135	21	53	0	508
Gwynedd	508	327	176	46	88	3	1148
Merthyr Tydfil	63	86	82	26	57	2	316
Monmouthshire	114	142	166	44	68	1	535
Neath & Port Talbot	220	150	98	27	87	4	586
Newport	120	213	191	78	62	7	671
Pembrokeshire	447	309	125	67	148	4	1100
Powys	195	242	150	68	150	25	830
Rhondda Cynon Taf	251	284	379	133	159	25	1231
Swansea	374	329	185	37	242	9	1176
Torfaen	193	121	124	13	38	3	492
Vale of Glamorgan	160	175	98	36	91	8	568
Wrexham	225	109	91	13	40	1	479
<b>Total</b>	<b>5240</b>	<b>4413</b>	<b>3223</b>	<b>1051</b>	<b>2070</b>	<b>164</b>	<b>16161</b>
<b>Total as percentage</b>	<b>32.42%</b>	<b>27.31%</b>	<b>19.94%</b>	<b>6.50%</b>	<b>12.81%</b>	<b>1.01%</b>	

Lesley Griffiths AC / AM  
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol  
Minister for Health and Social Services



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Eich cyf/Your ref  
Ein cyf/Our ref LF/LG/0047/12

To:  
Chief Executives of Health Boards  
Chairs of Health Boards  
Chief Executives of NHS Trusts in Wales  
Chairs of NHS Trusts in Wales

Cc:  
Medical Directors, Health Boards  
Directors of Nursing, Health Boards  
Directors of Public Health, Health Boards  
Directors of Public Protection, Local Authorities in Wales

2/5<sup>th</sup>

February 2012

Dear Colleague

### **Display of Food Hygiene Ratings at hospitals and other NHS premises**

In October 2010, the Food Standards Agency launched the Food Hygiene Rating Scheme in Wales. The scheme helps consumers choose where to eat out or shop for food by giving them information about the hygiene standards in restaurants, cafés, takeaways, hotels and supermarkets. As the scheme applies to any food business that provides food direct to consumers, ratings are also given to schools, hospitals and residential care homes.

The scheme is currently operated on a voluntary basis in Wales and run by Local Authorities in partnership with the Food Standards Agency. Local Authorities undertake inspections of food businesses to check they meet the requirements of food hygiene law. Based upon this inspection, the local authority calculates the rating and sends a sticker with the food hygiene rating to the food business. The food business is encouraged to display the sticker at the premises; all ratings are also published on the Food Standards Agency website.

Although the scheme is currently operated on a voluntary basis, I am consulting on legislation which would make it a mandatory requirement for all food businesses in Wales to display their food hygiene ratings. The consultation is available on the Welsh Government website at: <http://wales.gov.uk/consultations/healthsocialcare/food/?lang=en>  
I would encourage you and your staff to respond to the consultation on the Bill which will close on 7 March.

I would be grateful if you could ensure all hospitals and other NHS Wales premises that have received a food hygiene rating from their Local Authority display it where it can easily be seen by consumers. Local Authority officers are available to support food providers if any improvements are necessary to raise food hygiene standards and can provide advice on suitable locations to display ratings.

Yours sincerely  
Lesley Griffiths

**Lesley Griffiths AC / AM**

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol  
Minister for Health and Social Services